

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 6 Rhif 8

Yn rhad ac am ddim

Tachwedd 2025

*Read the article
'Learn Welsh Quicker
on page 5 and put a
boost in your
learning.
It'll change your life!*



Gwledd Gigrin

Ychydig o wythnosau yn ôl wnaethon ni gyfarfod fy mrawd a'i wraig yn fferm Gigrin ger Rhayader. Dw i wedi bod yna o'r blaen ond yn bell yn ôl ac mae pethau wir wedi newid yna, llawer mwy o guddfannau ac felly mwy o le i fod yn gyfforddus.

Mae'n anhygoel sut mae'r adar yn gwybod bod 3 o'r gloch yn agosáu, mae fel bod pob un yn cyrraedd ar yr un pryd. Dyna nhw yn hedfan mewn cylchoedd uwch ein pennau, cymaint o adar yn yr un lle ac yn osgoi ei gilydd yn reddfodol. Mae fel maen nhw'n gwybod i ba ochr i fynd, roedd lawer o 'close encounters' ond doedd dim angen galw'r ambiwlans.

Yn eu plith roedd barcud albino, prin iawn yw'r albino ond ychydig o wythnosau wedyn roedd rhaid i mi fynd i ardal Porthmadog a rhywle ar y ffordd, dydw i ddim yn cofio'r lle, welais i un arall. Tybed yr un un?

Unwaith mae'r ffarmwr yn taflu'r cig ar y cae mae popeth yn mynd yn wyllt a dw i wedi dysgu i beidio tynnu llun ohonyn nhw. Wrth wneud hynny dach chi'n colli'r wefr o weld gymaint o'r adar gosgeiddig yma yn dawnsio yn yr awyr.

Ond dyma lun nes i dynnu yn gynharach, fel maen nhw'n dweud!



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Beth am ysgrifennu stori?

Erbyn hyn mae dros ddau gant a hanner o ddysgwyr wedi ysgrifennu stori i'r Wennol, rhai wedi ysgrifennu llawer gwaith. Bob tro maen nhw'n ysgrifennu dw i'n sylwi bod y safon yn gwella ac, yn amlwg, maen nhw'n mwynhau'r profiad.

Mae ysgrifennu yn rhoi'r amser i chi feddwl am y ffordd gorau i ddweud rhywbeth - does dim brys. Pan dach chi'n cael sgwrs mae pwysau mawr arnoch chi achos mae'n rhaid i chi ateb yn syth. Mae ysgrifennu yn eich paratoi chi at siarad efo pobl.

Allech chi ysgrifennu am unrhyw beth dach chi eisiau, eich gwyliau efallai neu rywbeth pwysig sydd wedi digwydd, llyfr dach chi wedi darllen - unrhyw beth!

Neu bwt bach amdanoch chi - eich enw, ble dach chi'n byw ac yn y blaen. Peidiwch â phoeni am gamgymeriadau chwaith achos mi fydda i'n mynd trwy bopeth cyn eu cyhoeddi.

Anfonwch eich stori ataf - rob@wennol.cymru

What about writing a story?

By now about two hundred and fifty learners have written a story for The Wennol, some having written several times. Each time they write I notice that their Welsh is improving, and it's clear that they are enjoying the experience.

Writing gives you time to think about the best way to say something - there is no hurry. When you're in a conversation there is pressure on you - you have to answer straight away.

You can write about any subject you like, your holidays perhaps or something important that has happened, a book that you have read - anything!

Or a little bit about yourself - your name, where you live and so on. Don't worry about mistakes either because I go through everything before publishing.

Send your story to me - rob@wennol.cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Diwrnod diddorol

gan Liz Brent

Yn ddiweddar, aethon ni i Sir Benfro i fwynhau 'Diwrnod Fforio ar lan y môr. Roedd hyn yn anrheg Nadolig oddi wrth ein mab a'i wraig. Yna dyn ni'n cwrdd â'n harweinydd Craig a phedwar o bobl eraill.

Yn gyntaf, cerddon ni wrth ochr nant fach. Ar ôl esboniad dyn ni'n casglu planhigion bwydwy, er enghraifft garleg a chorn carw'r môr i ddefnyddio nes ymlaen.



Nesa, aethon ni i'r traeth ar bwys Saundersfoot. Mae'r traeth yn cael ei gysgodi rhag y gwynt gan y pentir.



Mae Craig wedi ffeindio clams meddal tua deg modfedd hir yn y tywod. Maen nhw'n cael eu gosod mewn basged fawr i gadw tan



fydden ni'n eu coginio ar y diwedd.

Yn anffodus roedd y slefren fôr wedi marw. Nesa, dyn ni'n casglu llawer o gocos yn y tywod a llawer o gregyn gleision ar y creigiau.

Dilynon ni Craig i le cysgodol. Yma, mae Craig yn gosod boncyff, gyda



thoriadau o'r pen bron i'r gwaelod, ar y tywod. Mae 'firelighters' yng ngwaelod y toriadau. Mae e'n cynnau'r tân.



Mae sosban fawr gyda Craig. Mae e'n gosod y casgliad o fwyd o'r môr, planhigion a menyn yn y sosban ar ben y tân i goginio.



Mae'r grŵp wedi mwynhau'r pryd o fwyd wedi casglu ac wedi coginio ar y traeth!



Diwrnod diddorol iawn!

Eicon Cymreig - Geraint Thomas

gan Liz Jowett

Dw i newydd wyllo Geraint Thomas mewn Taith Prydain ar y teledu. Ei ras broffesiynol olaf. Am chwaraewr wych!

Oedd hi'n ddiwedd emosiynol i yrfa ryfeddol.

Dw i wedi gwyllo'r rhaglen ar S4C - ac wedi deall tipyn bach.

Can you write me a Story?

Every month I'm short of stories for The Wennol Here's a chance for you to practise your Welsh and be pleased to see your work in print. Please send me a story.
Thanks - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Eisteddfod Genedlaethol 2025

gan Geoff Causer



Eleni cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngogledd Cymru (Wrecsam).

Dw i'n byw yn Y Rhyl tua 35 milltir o'r Maes, felly penderfynais i fynd i brofi'r digwyddiad fy hun.

Roedd popeth wedi ei drefnu yn dda iawn ac roedd 'na lawer o bethau i'w gweld a'u gwneud.

Mae yna ardal arbennig o'r enw Maes D sydd yno i annog a chefnogi dysgwyr Cymraeg.

Mae'r awyrgylch yn wych ac mae perfformiadau byw o bob math gan gynnwys cerddoriaeth a chanu, barddoniaeth, actio ac ati yn ogystal a stondinau sy'n hyrwyddo popeth Cymraeg.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn lle bendigedig i fynd i fod yn rhan o ddiwylliant Cymru, naill ai fel siaradwr Cymraeg rhugl neu'n ddechreuwr llwyr.

Nia Ellis

Shwmae, Nia dw i.

Dw i'n byw yn Wrecsam, yng Ngogledd Cymru. Mi ges i fy ngeni a fy magu yn Wrecsam. Do'n i ddim yn siarad Cymraeg pan ro'n i'n blentyn, dim ond tipyn bach yn yr ysgol. Ond rŵan, dw i'n dysgu drwy'r gwaith efo Dysgu Cymraeg. Dw i'n dysgu ers tua phedair blynedd ac mi fydda i'n ddechrau lefel Uwch mis Medi yma. Dw i wrth fy modd yn y dosbarth ac wedi gwneud rhai ffrindiau hyfryd ar hyd y ffordd. Eleni, mi wnaethon ni gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol i ddysgwyr yn y grŵp llefaru, a daethon ni yn ail!

Dw i wedi bod yn briod ers deng mlynedd ac mae gynnwys ni dau o blant. Yn ddiweddar, mi aethon ni i Northumberland ar wyliau. Dan ni wedi bod yn mynd yno ers blyneddau a wnaeth fy ngŵr a fi fynd yno ar ein mis mêl. Dan ni wrth

ein boddau efo'r ardal a'r arfordir - Beadnell, Bamburgh a Lindisfarne (Ynys Sanctaidd). Mae sŵn y tonnau, yr awyr ffres a'r teimlad o'r tywod rhwng bysedd fy nhraed yn nefoedd i mi. Y tro yma, roedden ni'n medru mynd i arsyllfa Dŵr a Choed Kielder. Mae gyrru yno drwy'r cefn gwlad efo'r haul yn machlud yn anhygoel. Does dim geirfa i ddisgrifio'r olygfa o'r alaeth, y Llwybr llaethog, uwchben. Hefyd y meteorau Persied yn saethu dros awyr tywyll y nos. Mi wnaeth y lleuad godi cyn diwedd y nos. Golygfa arallfydol tywyn oren islaw'r gorwel.

Roedd o'n brofiad bydda i'n cofio am byth.

Lynne Regent

Lynne Regent yw fy enw. Dw i wedi ymddeol ers tair blynedd. Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg nawr. Mae gwersi a gwaith Cymraeg yn cymryd llawer o fy amser ond dw i hefyd yn mwynhau helpu yn fy amgueddfa leol.

Mae Amgueddfa Dorking yng nghanol y dref. Mae'n fach ond yn llawn pethau diddorol. Mae rhywbeth i bawb. Mae pobl leol yn dod i ddysgu am hanes eu tref ond mae ymwelwyr yn dod o lefydd eraill hefyd.

Mae llawer o bobl enwog wedi byw yn Dorking. Mae'r rhain yn cynnwys Syr Laurence Olivier, yr actor enwog a Vaughan Williams, y cyfansoddwr enwog.

Mae'r amgueddfa'n dangos hanes y dref o gyfnod y deinosoriaid hyd at heddiw.

Dw i'n hoffi treulio fy amser yno yn fawr iawn a byddwn yn argymhell helpu mewn amgueddfa leol i eraill.

Fy Hoff Le

gan Robert Arnold



Dewch gyda fi i ynys Gymreig hudolus, sef, Ynys Enlli. Dim ond tri chilomedr oddi ar Benrhyn Llŷn ydy Ynys Enlli, ond byd hollol wahanol ydy e. Byd naturiol, heb geir, traffig, ac aer llygredig. Mae'r ynys yn fach iawn: un

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

cilomedr o led, a chilomedr a hanner o hyd, and mae'n llawn o ryfeddodau, gyda golygfeydd godidog.

Mae yma noddfa adar enwog, a dyma'r lle cyntaf yn Ewrop i gael Ardystiad Noddfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Heb os nac oni bai dyma un o'r lleoedd gorau i weld adar anghyffredin, adar fel drycin Manaw a brain coesgoch, er enghraifft.

Ac mae'r môr yn fywiog hefyd, gyda morloi llwyd, dolffiniaid, a llamhidyddion. Heblaw'r ochr naturiol, dw i'n gwybod bod diddordeb mewn hanes gyda chi, a dw i'n siŵr y bydd Ynys Enlli yn eich swyno chi gyda'i hanesion am frenhinoedd Cymru, saint a phererinion.

Ond mae'r ynys yn bwysig iawn i fi am un rheswm penodol. Ar ôl treulio wythnos anhygoel yno gyda fy nghariad, penderfynais i y dylen ni briodi. Ac un wythnos yn ddiweddarach dyna beth wnaethon ni. Felly, dewch gyda fi i'r ynys fwyaf rhamantus o holl ynysoedd Cymru!

Learn Welsh Quicker

and less painfully

by Rob Evans

Learning any language is difficult, there are thousands of words you have to learn, all the verbs and their tenses, plurals and idioms. You have to have confidence before you launch into a conversation and then there are those traps that mutations set for you. Do you agree? Of course you do!

But you are completely wrong!

There is one language that gave you no trouble at all. You didn't have to have a book of grammar and you experienced no difficulty and embarrassment about your early conversations.

This, of course was your first language, mine was Welsh but somehow I had no difficulty with English either although rarely did we use it before going to school. We must have been taught in English in the primary school because one boy, Colin Purvis, couldn't speak Welsh.

We had subconscious immersion, an osmosis.

Wouldn't it be wonderful if we could learn Welsh in that way as adults, but grammar gets in

the way and we have such things as mutations, plurals are not as easy as putting an 's' on the end and then there is the horror of 'things' being masculine or feminine.

The brain can only take so much!

So why not try to forget about all the rules of grammar and just get down to immersing yourself in Welsh. True enough, it isn't all around us, it is not as if you are living in the middle of France. In most parts of Wales you have to search for the Welsh language and it is not recommended for you to break in to someone's Welsh conversation.

So how can we fix this?

Easy – it is very fortunate that there are people creating books suitable for learners and although they may seem childish they are ideal for you. Reading these books alongside your Welsh course put you on a fast track to confidently using your Welsh. A book uses all the words you have learned, and more. A book shows you grammar at work, it makes sense of the rules that muddled your brain. All those words that you learned and carefully recorded in your notebook start to really enter your brain so they are there, on the tip of your tongue, when you need them. A book helps you to copy all those words from your note book to your brain without having to use an usb stick. How about that?

And all that with the joy of reading a book, and finding out that you can.

So how do you read a book?

You make yourself a cup of tea or coffee, leave the dictionary, closed, on the shelf. Sit in a comfortable chair and open the first page. Resist the panic when your brain tells you that you're reading Welsh, you will soon get used to it.

Aim to read about ten pages an hour, so it is important that you don't stumble your way through it, pausing in puzzlement at every word that you can't remember its meaning – stopping breaks the flow and it makes it more difficult for your brain to use the context to identify the meaning. This is what you are aiming for, exercising the brain to recall the meanings of words that you have already learned but do not yet make the journey to the front of your brain

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

quickly. But you don't have to worry about the technical bits, your brain knows what to do.

It doesn't matter if you feel that you don't understand the story, the print does not disappear once you've read it and I promise that your understanding will be much better on the second reading. The purpose of this first stage is for you to revise the words that you have already met, to see those words in context with others and to consolidate your understanding of how sentences are constructed in Welsh. It is far more effective than running through your own book of words. Words on their own don't come to much but a sentence brings them to life.

When you've reached the end put the book down but pick it up again in a few days and do a second reading. This time you will already have the gist of the story so your understanding of the details will be much greater. You will have read your first book, your confidence will grow and you will be well on your way!

Well done!


I know this is going to be difficult to start with but stick with it, you learn a language by using it and reading is a very stressless way of doing that.

And it works! I am the living proof of that!

This is the book we started with last month. It is very important that you read this one first because it is simple and it teaches you an important message - **you really can read a book!**

Madog yn y Parti

gan Branwen Glyn



It is an easy book to read with a vocabulary at the foot of each page but try to avoid looking at it during your first reading. Madog is Gareth and Elen's dog. He is very dear to them and loves playing and having attention, unfortunately he

likes to chew as well. Mrs Jones is celebrating her 80th birthday and is having a party and Gareth, Elen and Madog have been invited. I am saying no more.

The story itself only extends to 32 pages so it is not a book that will frighten you. As your first book it is very suitable. It has been written in the north Wales dialect but you who have been learning the south version should not let this worry you. You will be fine and its high time we ended this tendency to think of the difference as a huge brick wall. We are the same people and we all speak the same language.


At the start of the book there is a page which lists the words of the north and their equivalent in the south and also idioms that might be new to you. Note, it is only one page!

This is a very light story which is not too difficult and one that will encourage you to look for your next book.

And the next book is:

Blacmêl

gan Pegi Talfryn



Another book that is very easy to read and if you have been keeping up with your reading so far you will feel rather excited that you can actually read a book written in Welsh and you will be growing in confidence.

This is a story about a private detective in Caernarfon and there is a bit of blackmailing going on. You see, the well respected mayor has been caught dancing on stage in a rather expensive night club in Llandudno, this was while a lady was doing some pole dancing. The trouble is that the boss of the club is a gangster. The title of the book gives you a good idea what happens next.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

This is a book that you should be easily able to read in an hour. Remember that you mustn't stop at unfamiliar words, just carry on reading. The first time you read you are really revising the words that you already know but you will also get the gist of the story. Let yourself relax then and read the book again a little later. Because you know more about the story the second time you will understand a bit more.

When you are in a Welsh class you are learning the rules of grammar and getting used to new words. Reading a book lets you see those rules at work and also helps you to remember words because you have seen them at work.

When you become confident with your Welsh you will feel a sense of pride. You will still be learning Welsh, of course, but at a faster rate.

I know that it is psychologically difficult to read a book without halting here and there but, as I said, this book can be read in an hour.

A determined effort of one hour will start you on a new journey, an easier journey, into the Welsh language.

Synau Derbyniol?

gan Rob Evans



Trwy'r haf mae rhywun ar gontract i dorri'r gwair yng ngardd y tŷ tu ôl i mi ac mae'n treulio tua hanner awr yn chwythu'r gwair i ffwrdd o'r llwybrau ac o'r Tarmac o flaen y tŷ. Weithiau dw i'n ei wyllo yn mynd ar ôl rhyw ddeilen sydd ddim yn hapus i fynd i'r lle mae o eisio iddo fynd. Dydi o ddim yn mynd ati am sbel hir ar y tro ond yn hytrach ym mynd brrrrup wedyn brrrrrrrup ac mae'r ffaith bod o'n wneud o yn y ffordd yna yn waeth dw i'n meddwl. Dydi o ddim yn digwydd ar yr un diwrnod bob tro chwaith ac mae hyd yn oed yn gweithio ar ddydd Sul! Ond tydi bawb yn gwneud hynny'r dyddiau yma!

Bore heddiw roeddwn i'n gweithio ar Y Wennol, a phan dw i'n gwneud hynny mae'n llawer haws os dw i'n gwneud hynny mewn tawelwch ond yn sydyn roedd sŵn byddarol yn codi o ardd flaen drws nesaf. Brensiach annwyl! Pwy sydd yn gwneud y sŵn yma? Codais o fy nghadair ac edrychais trwy'r ffenest. Gwenais mewn boddhad mawr! Mae rhywun wrthi yn torri'r holl leylandis sydd yn tyfu'n agos iawn i fy ngwal a'u gwreiddiau yn crwydro o dan y pafin bric yn ac yn achosi i fi faglu pan dw i'n mynd heibio.

Mae'r dyn drws nesaf, dyn ffeind ofnadwy, wedi bod yn sôn am gael nhw i lawr am ychydig o flynyddoedd erbyn hyn. Ond efo amser yn mynd heibio a dim byd yn digwydd roeddwn i'n meddwl byddai raid i mi ddioddef nhw am byth.

Ond na, maen nhw i gyd i lawr erbyn hyn ac mae'n dawel eto. Dw i newydd alw drws nesaf efo bag o afalau i Ahmed a'r teulu.

A dyna chi dach chi'n gweld, mae rhai o synau yn bleser i ddioddef!

Cornel Cyngor

gan Darhon Rees Rohrbacher

Annwyl Angharad

Rydw i wedi bod yn berchen ar ddraig anwes ers sawl blwyddyn ac mae hi'n byw yn ystafell wely sbâr fy nhŷ. Mae hi wedi'i hyfforddi ar dennyn, ac rydw i'n mynd â hi am ddwy dro bob dydd. Mae hi'n ymddwyn yn dda ac eisiau gwneud ffrindiau gyda'r cŵn yn y gymdogaeth. Y broblem yw bod rhai cymdogion yn credu bod fy nhraig yn beryglus achos ei bod hi'n edrych fel anghenfil cyn-hanesyddol iddyn nhw. Maen nhw wedi dechrau deiseb yn y dre i wahardd cadw dreigiau fel anifeiliaid anwes sy wedi gwneud i mi deimlo'n bryderus. Beth ddylwn i ei wneud?

Diolch, Pryderus

.....

Annwyl Pryderus

Yn aml, mae ofn yn ganlyniad anwybodaeth neu ddiffyg profiad. Mae angen i'ch cymdogion

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gwrdd â'ch draig anwes i weld pa mor braf ydy hi. Dw i'n argymhell trefnu parti a gwahodd yr holl gymdogion i ddod â'u hanifeiliaid anwes i'r parti. Gwnewch rai danteithion iach i'w rhoi i'r cŵn a'r cathod. Yn y cyfamser, trefnwch gyfarfod preifat gyda swyddogion y dre yn eich tŷ i gwrdd â'ch draig gyfeillgar. Rwy'n siŵr pan fyddan nhw'n cwrdd â'ch draig, y byddan nhw'n newid eu meddwl.

Pob lwc, Angharad

Hen Gapeli Segur

gan Patrick Soper



Mae ein capeli yn dyddio yn ôl i ddyfodiad Anghydfurfiaeth, enwadau megis y Crynwyr Methodistiaid, a'r Bedyddwyr oedd yn gwrthod dysgeidiaeth yr eglwys Anglicanaidd sefydledig, wrth ddilyn llwybr addoliad Cristnogol symlach ac yn fwy uniongyrchol. Ers degawdau bu'r capel yn aelod pwysig o'r gymuned; ond nawr yn yr adegau cyfoes wedi'u cloi yw rhan fwyaf o'r drysau'r hynny.

Cafwyd ein cyndeidiau brofiad o sawl diwygiad crefyddol yn ystod y 19eg canrif - er enghraifft yn ardal Merthyr Tudful yn 1810. Yn 1849 daeth y 'Diwygiad Mawr' a oedd yn rhannol yn ymateb i epidemig colera a ddigwyddai yn 1849-50, a hefyd yn 1866.

Credir y bu farw cannoedd o filoedd o bobl o'r clefyd hwn, wedi'i achosi gan dai o ansawdd gwael, amodau gorlawn, a chyflyrau afiachus. Roedd llawer o bobl yn gobeithio y gallan nhw aros yn iach drwy droi i'w capel unwaith eto.

Maent yn dweud bod tua 1860 - blwyddyn wedi diwygiad y 'Trydydd Deffroad Mawr' - roedd gan Gymru rhyw 2,920 o gapeli ac, gyda'i gilydd, roedd digon i gynnig sedd i dri chwarter poblogaeth ein cenedl bryd hynny.

Digwyddodd y diwygiad crefyddol diweddaraf yn 1904-05. Ar flaen y gad oedd pregethwr ifanc, carismatig a golygus Evan Roberts (1878 - 1951). Dyma oedd y diwygiad Cristnogol pwysicaf a mwyaf ar led yng Nghymru yn ystod y 20fed canrif i gyd, ac roedd y capeli a'r eglwysi yn llawn addolwyr am sawl blwyddyn.

Cyrhaeddodd adeiladu capeli yng Nghymru ei phenllanw yn ystod hanner cyntaf y 19eg canrif. Parhâi'r gwaith i'r 20fed ganrif i ddechrau, ond arafodd pethau yn fawr yn sgîl arswyd Rhyfel Byd Cyntaf yr oedd wedi codi amheuan ynghylch crefydd ym meddyliau cymaint o bobl.

Heb os, bydd llawer o'r hen gapeli wedi diflannu erbyn hyn, wedi'u dymchwel i wneud lle am ddatblygiadau tai, ffyrdd newydd, ayb. O'r capeli sydd wedi goroesi dim ond lleiafrif ohonyn nhw sydd yn dal i fod mewn defnydd – gan hen bobl yn bennaf.

Mae'r sefydliad dielw Addoldai Cymru yn seiliedig ym Maesteg. Yn ôl ei gwefan cafodd ei greu ym mis Tachwedd 1999 gan Cadw a'r Cyngor Gweithred Wirfoddol

Fel Ymddiriedolaeth, bwriad y sefydliad yw ceisio achub capeli rhag dirywiad os maen nhw yn Adeiladau Rhestredig, a gall yr Ymddiriedolaeth drefnu gwaith i'w trwsio. O'r dechrau yn 2003, maen nhw wedi gallu achub rhyw ddwsin o gapeli - yn ddiweddaraf Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn Llandrindod yn 2023.

Ond beth am y capeli gwag yn ein plith nad yw wedi cael ei rhestru erioed oherwydd nad yw eu pensaernïaeth yn ddigon nodweddiadol, ayb?

Roedd yr adeiladau hyn yn guriad calon eu cymuned a gallan nhw fod yn werthfawr o hyd. Allwn ni fforddio eu gadael i farw? Efallai gyda thipyn bach o arian blynyddol oddi wrth y Senedd byddai modd i ailsefydlu calon ein pentrefi ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd.

Tipyn bach o ddamwain

gan Fred Green

Roedd hi'n ddydd Sul braf, a phenderfynais seiclo un o fy ffefryn teithiau drwy Tegryn, Crymch a Llanfyrnach. Dw i'n cofio roeddwn i tua saith milltir o fy nghartre'. Y peth nesaf dw

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

i'n ei gofio, ro'n i'n cael fy rhoi mewn hofrennydd. Ni alla i gofio gormod o'r dydd heblaw am weld fy ngwraig, fy mab a fy merch mewn stafell yn yr ysbyty, ac, wrth gwrs, y meddygon a nyrsys a oedd yn gofalu amdana i.

Dros y dyddiau nesaf, dysgais i beth oedd wedi digwydd. Roedd yr olwyn blaen wedi bwclo mewn twll yn yr heol, cwmpais i o flaen car oedd yn teithio tuag ataf a ches i fy nharo dros fy ochr dde. Torrais i esgyrn yn y pen-glin, y glun, yr ysgwydd a fy wyneb ar bwys y llygad. Ro'n i'n gwaedu yn yr ymennydd a'r ysgyfaint hefyd. Ro'n i'n gwisgo helmed, diolch byth, ac felly goroesais i'r ddamwain.

Ces i fy anfon mewn hofrennydd o Sir Gâr i'r Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, gan fod adnoddod fanna i drin fy anafiadau amrywiol. Ces i lawdriniaeth i drwsio fy mhen-glin a llawdriniaeth i roi hidlwr yn fy ngwythiennau i atal tolchenni yn fy ymennydd a fy ysgyfaint. Y peth mwyaf difrifol oedd tolchenni gwaed, gan eu bod nhw'n gallu peryglu fy mywyd, fel dw i'n deall. Ges i ffrâm gefnogol ar fy nghoes de i'w gadw yn syth ac yn ddiogel.

Ro'n i'n falch o glywed bod Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn meddwl taw Cymraeg oedd fy iaith cyntaf, er ni siaradais i lawer o synnwyr, dw i'n siŵr. Ar ôl diwrnod yn y ward gwella, symudid fi i'r ward 'polytrauma' ble ro'n i'n treulio y deg diwrnod nesaf.

Ces i ofal da yn y ward, rhaid i fi ddweud. Roedd y nyrsys o bedwar ban y byd, ac roedd yn amlwg i fi y byddai problemau mawr yn y GIG heb fewnfudwyr. Wrth gwrs, roedd rai Cymry, ond dim ond rhai ohonyn nhw oedd yn siarad Cymraeg. Gan ro'n i'n dioddef o gyfergyd yn y damwain, ges i gwestiynau yn y dyddiau cyntaf am fy enw, y flwyddyn a dyddiad fy ngeni. Penderfynais i ddweud dyddiad fy ngeni yn Gymraeg - y pedwerydd o Hydref, mil naw pedwar wyth - (gydag esboniad os byddai angen). Ar ôl sbel fer, ysgrifennodd un o'r nyrsys sy'n siarad Cymraeg nodyn yn fy ffeil ac wedyn doedd dim rhaid i fi esbonio'r dyddiad. Ges i sgwrs yn Gymraeg gyda sawl nyrs a meddyg yn y ward.

Gyda chymorth y ffisios, dysgais i sut i gerdded gyda ffrâm heb rhoi pwysau ar fy nghoes dde ac wedyn, er mwyn fod yn barod i

ddychwelyd adre, sut i dringo a sut i ddod i lawr grisiau. Roedd teimlad o ryddhad pan o'n i'n gallu mynd i'r tŷ bach ar fy mhen i hun, ond ro'n i angen cymorth i ymolchi, ac wrth gwrs newid y rhwymynau.

Mae ffoto yma yn dangos triniaeth gan nyrs sy'n siarad Cymraeg. Roedd hi'n braf siarad â hi pan oedd hi'n gweithio.

Ges i baracetamol a morffin sawl gwaith y diwrnod yn erbyn y poen hefyd. Roedd yn anodd bwyta gydag esgyrn wedi eu torri yn y wyneb, ond ro'n i'n ymdopi'n well bob dydd.

Ar ôl deg diwrnod, ro'n i'n gallu dychwelyd adre. Trefnodd yr ysbyty ambiwlans i fy ngludo o Gaerdydd i Sir Gâr oherwydd y grisiau i'r tŷ a nawr dw i'n gallu ymlacio gartref. Bydd rhaid i fi fynd i apwyntiadau yn yr ysbyty lleol er mwyn cael mwy o driniaeth a bydd sawl wythnos mwy cyn alla i grwydro fel ro'n i'n arfer, ond dw i'n diolchgar iawn i'r GIG ac i bawb sy'n gweithio yn yr ysbytai.

A sut ydw i erbyn hyn?

Y 13eg o Fedi

Wel, dyma fi dau fis ar ôl y ddamwain. Dw i'n gwella, ond yn araf. Alla i ddim sefyll ar fy nghoes dde eto, dw i angen gwisgo bres a cherdded ar y goes chwith gyda ffrâm neu faglau. Ces i'r baglau wythnos ddiwethaf gan y ffysio a dw i'n dal i ddysgu sut i'w defnyddio. Dw i ddim yn cysgu yn dda gan fy mod i'n anghyfforddus a dw i angen codi yn y nos sawl waith er mwyn ymlacio'r goes.

Dw i wedi cael llawer o gymorth oddi wrth y teulu. Dw i'n dibynnu ar y wraig am fwyd a diod ac mae hi wedi dyfrio'r tŷ gwydr a'r twnnel tyfu bob dydd, daeth y mab yma sawl penwythnos o Lundain i dorri'r lawntiau a gweithio'n galed yn yr ardd a daeth y ferch o Swydd Gaerloyw i fynd â fi i'r clinig yn yr ysbyty a gweithio yn yr ardd hefyd, er bod plant ifanc a swydd gyda hi. Dywedodd sawl cymydog y bydden nhw'n fy helpu hefyd. Dw i'n hynod o ddiolchgar ond,



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

wrth gwrs, dw i wedi colli cnydau o'r ardd gan nad allwn i gerdded mas a gofalu am y planhigion. Mae cymaint o arddio yn dod o weld beth sy angen ei wneud ar ôl arolygiad.

Ces i'r beic yn ôl gan yr heddlu, ac mae'r difrod yn waeth nag o'n i wedi disgwyl. Mae angen cael ei drwsio pan dw i'n gallu symud a gyrru eto. Ond dw i ddim yn disgwyl seiclo lot cyn y flwyddyn nesaf. Bydd rhaid i fi brynu dillad seiclo newydd.



Dw i wedi cael ymarferion gan y ffisio, a dw i'n gweithio arnyn nhw bob dydd, ond maen nhw'n boenus, rhaid i fi ddweud.




Felly, mae'n amser rhwystredig gyda fi, a bydd yn rhwystredig am wythnosau eto, ond dw i'n teimlo'n ddiolchgar dros ben am ddymuniadau da'r cymdogion a chariad y teulu.




Y Ddringfa gan John Simpson

Yn ddiweddar wnes i gwrdd â fy mab, Sam a'i gariad, Fran, er mwyn iddo allu ddod gyda ni i ddringo i baratoi ar gyfer asesiad o'i allu fel hyfforddwr dringo. Roedd wedi penderfynu mynd â ni i fyny un o'r llethrau o amgylch Llyn Idwal, yr oedd yn ei adnabod yn dda ac yn meddwl y byddwn i'n gallu ei ddringo.

Os oes unrhyw un yn meddwl ymweld ag ardaloedd mwy poblogaidd Eryri, y ffordd orau o gyrraedd y safleoedd mwyaf poblogaidd yw teithio ar fws gan fod y meysydd parcio'n llenwi'n gynnar, yn enwedig ar benwythnosau yn yr haf. Mae rhaeadr hardd heb fod nepell o'r ganolfan ymwelwyr ar ochr y llwybr i'r llyn.



Dechreuon ni tua 11.00 ac roedden ni'n barod i ddechrau dringo am 11.30. Wrth reswm mae gan Sam yr holl offer cywir, y rhan fwyaf ohonynt er mwyn fo ei hun, ac fe helpodd fi i mewn i'm harnais a'm helmed. Pan nododd Fran y llwybr yr oeddem yn mynd i'w gymryd mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n teimlo ychydig yn anghyfforddus. Roedden ni'n mynd i wneud esgyniad o tua 900 troedfedd i fyny ochr Llyn Idwal, ond roedd gen i hyder llawn yn fy mab i ofalu am fy lles, a dim ond cwpl o weithiau y gallai hyn fod yn gynllun i gyflymu dod i'w etifeddiaeth.



Heb fynd i mewn i ormod o dechnegau, roedd y tri ohonom wedi'u cysylltu gan rhaff, roedd tua 50 troedfedd o rhaff rhwng Sam a minnau, yna tua 15 troedfedd o rhaff rhwng fi a Fran. Byddai Sam yn arwain y ffordd ac yn dod o hyd i le addas i angori naill ai gan ddefnyddio cnau neu ddolen o amgylch graig. Roedden ni'n gorffwys ar adegau, ac ni allwn gredu pa mor gyflym yr oedd amser yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

hedfan. Bob hyn a hyn gwnaeth Sam dangos nodweddion daearegol - er enghraifft roedd band o gwards yn rhedeg trwy'r graig tua 600 troedfedd uwchben y gwaelod.

Roedden ni'n dringo am tua dwy awr a hanner, ac roedd rhai rhannau eithaf anodd lle roeddwn i'n cael trafferth ac angen ychydig o help. Rwy'n deall yn well pam mae Sam yn gwneud cymaint o ymarferion i wella cryfder ei gorff uchaf a'i ffitrwydd, ac er fy mod wedi llwyddo'r cam cynharach roeddwn i'n teimlo fy hun yn blino tua 700 troedfedd o uchder. Fe gyrhaeddwn ni'r copa ac roeddwn i'n bersonol yn falch o'r seibiant. Ar ôl ein gorffwys aethom yn ôl i'r maes parcio. Wrth i ni gyrraedd y ganolfan ymwelwyr, roeddwn i'n synnu gweld tua 30 o Iddewon Uniongred yn eu dillad gorau yn cerdded i fyny tuag at y llyn. Dywedodd Sam fod hyn yn digwydd bob blwyddyn i nodi rhyw ddiwrnod arbennig yn eu calendr.

Ar y ffordd yn ôl i Ddolgellau fe wnaethon ni alw heibio mewn tafarn wych - Gwesty y Gwydyr



yn Nolwyddelan lle roeddwn i'n gallu sgwrsio'n fyr gyda'r bobl leol yn Gymraeg, ac yna ar ôl cael cawod a newid aethom i gyd am ginio rhost gwych yn nhafarn George III ym Mhenmaenpwl.

Gwell hwyr na hwyrach!

gan Lesley Newell



Ges i fy ngeni yng Nghymru. Roedd fy rhieni newydd symud i Lundain, ond, achos bod fy Mam ddim yn nabod unrhyw un yn lleol, penderfynodd hi i fi gael fy ngeni yn ôl yn yr

ysbyty, yng Nghastell-nedd, lle'r oedd hi'n gweithio fel nyrs rhai blynyddoedd yn gynt.

Felly, dw i'n gallu dweud yn wirioneddol fy mod wedi cael fy ngeni yng Nghymru, i rieni o Gymru, ond dw i erioed wedi byw yng Nghymru!

Pan oeddwn i'n ifanc, roedden ni'n byw yn Swydd Hertford. Dw i'n gwybod bod fy Mam wedi siarad Cymraeg â fi pan oeddwn i'n fabi, ond roedd hi'n poeni y byddwn i'n cael problemau yn yr ysgol. Pan oeddwn i tua 18 mis oed, dechreuodd hi siarad Saesneg â fi. Dw i'n meddwl fy mod i wedi cofio rhai geiriau, ac yn gallu dilyn sgwrs syml, ond wnes i erioed siarad Cymraeg yn rhugl. Fel unig blentyn, fi oedd yr unig berson nad oed yn siarad Cymraeg yn rheulu fy Mam. Trwy fy mywyd, dw i wedi dyfaru na wnaeth fy Mam barhau i siarad Cymraeg â fi.

Yn ddiweddar, ar ôl ymddeol, dechreuais i ddosbarthiadau Cymraeg! Mae wedi bod yn anodd ond yn braf siarad tamaid bach o Gymraeg. Yn rhyfeddol, dw i'n meddwl bod peth geirfa wedi ei gladdu yn fy ymennydd blynyddoedd yn ôl

Gwell hwyr na hwyrach!

Frank yn 90 oed

gan Sara Jones



Ar yr ail ar bymtheg o Fedi roedd fy ngŵr Frank yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Mi gafodd Frank ddiwrnod hyfryd iawn yn dathlu gyda'i deulu, ei ffrindiau a chymdogion. Mi gawsom ni barti yn ein tŷ gyda bwffe amser cinio.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Treuliodd Frank deng mlynedd gyntaf ei fywyd dan ddylanwad yr Ail Ryfel Byd. Mae ganddo atgofion o fynd i'r ysgol gynradd leol yn gwisgo mwgwd nwy siâp Micky Mouse. Mae'n cofio gorfod cuddio o dan y desgiau yn yr ysgol pan ganwyd y seirena. Yn ei gartre cuddiodd o dan y grisiau.

Roedd bywyd yn galed iawn oherwydd dognau bwyd a chyfyngiadau. Roedd bwyd yn brin. Yn ffodus roedd teulu Frank yn ffermio, felly roedd ganddyn nhw laeth ac wyau ac roedden nhw'n cadw moch.

Mynychodd Frank capel Cymraeg yn Froncysyllte lle dysgodd Gymraeg. Ond yn yr ysgol roedd yr iaith Gymraeg wedi'i gwahardd yn llwyr, ac os oedd unrhyw un yn cael ei ddal yn siarad Cymraeg roedden nhw'n cael eu cosbi.

Gadawodd Frank yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Roedd rhaid iddo adael yr ysgol yn 14 mlwydd oed er mwyn gweithio. Mi weithiodd yn siop gigydd ei ewythr am gyfnod ac wedyn fel gweithiwr fferm am 13 mlynedd. Pasiodd Frank ei brawf gyrru yn 17 oed a gyrru ambiwlans a redir gan y Groes Goch a St John's. Doedd dim hyfforddwyr gyrru gyda cheir "dual controls" bryd hynny. Dysgodd Frank yrru gyda'i dad yn ei hen gar.

Hyfforddodd Frank fel gweithredwr craen ar ôl hynny a gweithiodd ar lawer o brosiectau pwysig. Ar ôl bywyd o waith gwirfoddol a gweithio i'r cyngor lleol mae Frank wedi ymddeol yn hapus rŵan.

Mae ŵyr hynaf Frank, Jack, yn 17 mlwydd oed rŵan a newydd ddechrau dysgu gyrru. Mae byd Jack mor wahanol i fyd Frank gan y bydd yn dysgu mewn car â "dual control" gyda hyfforddwr. Bydd Jack yn talu £50 am un wers yrru, y swm y byddai Frank wedi'i ennill mewn dau fis yn 17 oed.

Hefyd cafodd Jack y ffrainc o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg heb gael ei gosbi.

Er bod pethau wedi newid a phopeth yn wahanol, mae Frank yn dweud ei fod yn credu yng ngras Duw sydd byth yn newid ac wedi ei adnewyddu.

Byd Natur – mis Tachwedd 2025

gan Partick Soper



Yr Aderyn Du

Ymwelwyr cyffredin a chroeso dros ben i'n gerddi yw adar duon ac, wrth chwilio am rywbeth blasus i'w fwyta, maen nhw'n ddigon dewr i ddod o fewn llathen ohonon ni sy'n mynd ati'n palu neu'n torri'r lawnt, ayb - maen nhw'n gobeithio y bydd abwydyn neu rywbeth tebyg yn dod i'r golwg.

Mae gan yr adar gwryw plu du gloyw, pig melyn (pig du yn ystod y gaeaf cyntaf) a chylchoedd melyn o gwmpas ei lygaid. Brown a melfedaidd yw plu'r adar benyw, a'r adar ifanc yn debyg ond gyda brest frith.

Yn bennaf y fenyw sy'n adeiladu'r nyth lle bydd hi'n dodwy ei hwyau, rhwng tri a phedwar ohonyn nhw, ym mis Mawrth neu Ebrill. Dechreu'r cywion adael y nyth ymhen pythefnos ond byddan nhw'n aros ac yn dibynnu ar eu rhieni am ryw dair wythnos yn rhagor.

Mae'r adar atyniadol hyn gyda'u cân felys yn byw dros ardal helaeth Ewrop cyn belled i'r gogledd â blaen mwyaf deheuol y penrhyn Llychlyn, a chyn belled i'r de â gogledd Affrica. Mae'r adar duon sy'n byw mewn ardaloedd oer Ewrop yn tueddu treulio'r gaeaf yma yn y DU lle mae tywydd yn fwynach.



Pcradyl Blewog

Ymddangosa'r blodau peradyl blewog ym mis Mehefin a gallan nhw'n parhau tan fis Tachwedd, yn enwedig mewn lleoedd gwelltog gweddol sych, ac ar dwyni tywod. Planhigion lluosflwydd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

brodorol ac yn ddigon tebyg i ddannedd y llew ydyn nhw, ac yn aelod o deulu llygad y dydd.

Yn gyffredin ym mhob man yn hanner deheuol y DU, maen nhw'n brinnach yn bellach i'r gogledd, ond yn raddol maen nhw'n ymestyn eu cynefin.



Marddanhadlen
wen

Cafodd peradyl blewog ei gyflwyno i Awstralia ac America lle mae wedi dod yn blanhigyn goresgynnol erbyn hyn, ac yn fygythiad i rywogaethau brodorol.

Planhigyn lluosflwydd brodorol arall sy'n helaethu ei gynefin i ardaloedd gogleddol yr ynysoedd hyn yw marddanhadlen wen. Mae aelod hon y teulu mintys yn gallu tyfu i ryw bymtheg modfedd o uchder ac mae'n gyffredin ar ymylon ein ffyrdd ac yn ein porfeydd a chyrion ein coedwigoedd.

Mae marddanadl gwnïon yn debyg iawn i ddanadl poethion, heblaw eu bod yn cynhyrchu blodau gwynion atyniadol rhwng mis Mawrth i fis Rhagfyr sy'n amgylchynu'r coes bob hyn a hyn. Tarddle neithdar a phaill yw'r blodau hyn, a ganddyn nhw dipyn bach o bersawr melys - yn wahanol iawn i flodau bach a dinod gwynion neu wyrddion y danadl poethion.

Rŵan maen nhw'n byw gyda'i gilydd mewn cartref preswyl ger fy nhŷ. Trefnodd y rheolwr adloniant barti yn y cartref i fy rhieni.

Gwahoddais i chwech o bobl o'u heglwys. Ymwelon nhw â fy rhieni yn y bore.

Yn y prynhawn ro'n ni'n cael parti i'r teulu. Roedd fy rhieni, fy mab, fy mhlentyn arall, fy mrawd, fy ngwaer-yng-nghyfraith, fy nith, fy nghyfnither o Gaerlŷr, fy nghyfnither o Lundain, ffrind deulu, a fi i gyd yn y parti.

Mae llawer o bobl yn fy nheulu yn llysieuwyr. Felly, ro'n ni'n bwyta brechdanau wy, brechdanau caws, pitsas bach a chreision. Ac, wrth gwrs, cacen arbennig iawn. Roedd y gacen yn binc ac yn felys. Gwnaethon ni yfed dŵr neu baned o de neu goffi.

Tynnodd fy mrawd lawer o luniau ac yn nes ymlaen printiais i rai ohonynt i ddangos i fy rhieni. Gwnaeth pawb mwynhau'r parti yn enwedig fy rhieni. Anfonodd y Brenin Charles gerdyn llongyfarchiadau iddyn nhw.

Darllenais i mai ddim ond wyth cwpl bob blwyddyn sy'n dathlu eu 70th pen-blwydd priodas. Felly mae fy rhieni yn un mewn miliwn! Dw i'n hapus iawn drostyn nhw.


A llongyfarchiadau oddi wrth darllenwyr Y Wennol hefyd! - Rob

70fed Pen-blwydd Priodas

gan Julie Sharp



Dydd Mercher, yr wythnos diwethaf, roedd 70ain pen-blwydd priodas fy rhieni. Eu henwau ydy Sheila ac Arthur. Gwnaethon nhw briodi ar y ddegfed o fis Medi 1955 yng Nghaerlŷr.



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Taith Beicio Velomaritime 2025



Taith Mikeal ac Yvonne Conq

3 Dydd Gwener, Mehefin 6

O Boulogne i Groffliers (70 km)

Rydym yn dweud ffarwel i Louis am 7:00 y bore, wrth iddo deithio mewn car i'w swydd fel athro Lladin a Ffrangeg. Rydym mewn cyflwr da i ymweld â atyniadau helaeth porthladd pysgota mwyaf Ffrainc, heblaw am Lorient.

Mae Basilica Notre Dame, gyda'i chromen 100 metr o uchder, yn dominyddu'r ddinas gyfan. Tu mewn, mae arddangosfa helaeth, hanesyddol a chrefyddol yn dal ein sylw, mae'r crypt, set o ystafelloedd wedi'u lleoli o dan y basilica, yn gofeb i hanes 2,000 o flynyddoedd y ddinas. Yn symbol o ryddid Boulogne, mae ei glochdy o'r 12fed ganrif yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd, ynghyd â 22 o glochdai eraill yn rhanbarth Hauts-de-France.

Ar ôl taith foreol 30 km, rydym yn cael picnic ym Mynwent Ryfel y Gymanwlad yn Etaples. Wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn llawn blodau, mae'n gartref i feddau 11,517 o filwyr o'r Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd! Mae tref Le Touquet-Paris-Plage, perl arfordir Opal, wedi'i lleoli ym mae Canche, yn ein croesawu nesaf, mae'n gyrchfan glan môr foethus sy'n enwog ac yn boblogaidd iawn gyda'r Parisiaid, gyda phoblogaeth o 4,000 o drigolion, ac sydd yn cael bron 250,000 o ymwelwyr yn yr haf!

Mae sawl person pwysig yn gysylltiedig â'r dref hon, fel Brigitte ac Emmanuel Macron, Sébastien Cauet, Philippe Noiret, Serge Gainsbourg. Sylwaf fod teiar cefn beic Yvonne ychydig yn fflat. Rwy'n ceisio ei ail-chwyddo gyda fy mhwp llaw bach, ond heb lwyddiant, wrth i ni agosáu at Berck. Rydym yn newid y tiwb ac yn

penderfynu prynu pwmp traed, mwy effeithiol er yn fwy lletchwith.

Rydym yn cyrraedd bae Authie, na fyddwn yn ymweld ag ef oherwydd bod gennym apwyntiad yn nhŷ Anne, yn Groffliers, diwedd y rhan hiraf o'n taith! Croeso cynnes, cawod ddymunol, pryd o fwyd calonnog a noson dda o gwsg!

4 Dydd Sadwrn, Mehefin 7

O Groffliers i Abbeville (60 km)

Rydym yn gadael Pas-de-Calais a'r Pays des Chtis ac yn cyrraedd adran Somme a Pharc Rhanbarthol Baie de Somme. Rydym yn croesi Parc Adar Marquenterre, llwybr mudol i filoedd o adar a gwlypdir hanfodol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth anifeiliaid a phlanhigion. Rydym yn dysgu bod 87% o wlypdiroedd y byd wedi diflannu ers y 18fed ganrif.

Mae mwy na 300 o rywogaethau adar yn cael eu gwarchod yno. Mae'r dirwedd yn wastad ac yn gleiog, tiroedd sy'n cael eu hadennill yn raddol o'r môr yw'r rhain, corydd a gwelyau cyrs. Adeg ein hegwyll de tua 10 a.m. rydym yn sylwi bod teiar cefn beic Yvonne wedi'i colli aer unwaith eto. O dan loches dros dro yn y cefn gwlad, tra ei bod hi'n bwrw glaw ysgafn, rydym yn cymryd yr amser i drwsio. Mae popeth yn mynd yn dda i ni!

Ar ôl St Quentin en Tourmont dyna Le Crotoy gyda'i dreftadaeth gyfoethog a ysbrydolodd Jules Verne, rydym yn cyrraedd Noyelles-sur-Mer, aber afon Somme. Mae gennym ni gyfarfod yno gyda Brigitte a Maurice, ein gwesteiywr Warmshowers, sy'n cynnal gŵyl wreiddiol o amgylch yr hen rwydwaith rheilffyrdd sy'n dyddio o'r 19eg ganrif. Mae cymdeithas o selogion yn tystio i gyfnod llewyrchus pan chwaraeodd y rheilffordd ran hanfodol yn cludo nwyddau ac ymwelwyr o Baris er mwyn cyrraedd y cyrchfannau glan môr.

Heddiw, defnyddir y trêen stêm at ddibenion twristiaeth. Mae'r ŵyl hon hefyd yn gyfle i goffáu'r gweithwyr Tsieinaidd a gyflogwyd gan fyddin Prydain yn Noyelles yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Rhoddwyd tasgau llafurus iddynt, fel cloddio ffosydd a chasglu cyrff milwyr. Bu farw llawer o Tsieinaidd o'r fflw Sbaenaidd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Mae'r fynwent, gyda'i 842 o gerrig beddau yn tystio i'w dewrder, dyma'r fynwent Tsieineaidd fwyaf yn Ewrop. Aethom ati eto yn y glaw ar hyd Camlas Somme tuag at Abbeville, lle croesawodd Brigitte a Maurice ni i'w cartre' fel hen ffrindiau o'r teulu estynedig rhwydwaith teithiau beicio elusenol Warmshowers! Torrodd y storm, rhuodd y taranau, ond cysgon ni'n heddychlon yn y tŷ!



Beth sy'n Digwydd yng Ngharth Newydd?

Proffil Tiwtor Cymraeg:

Virginia Steinkamp

Ganwyd Virginia Steinkamp yn Nhrelew, Patagonia (Ariannin)—tref a sefydlwyd gan ymsefydlwyr Cymreig ym 1865. Daeth ei chyfarfyddiad cyntaf â'r Gymraeg yn wyth oed mewn gwasanaethau capel, gan danio angerdd gydol oes dros yr iaith.

Erbyn 18 oed, roedd hi wedi ennill ysgoloriaeth i wella ei Chymraeg yng Nghaerdydd, gan ennill rhuglder a dyfnhau ei chysylltiad diwylliannol. Am dros ddegawd, bu'n dysgu Cymraeg i blant ac oedolion ym

Mhatagonia, gan helpu i gadw'r iaith yn fyw ar draws cenedlaethau.

Nawr wedi'i lleoli yn Sbaen, mae Virginia yn rhedeg prosiect ar-lein sy'n cynnig tiwtora Cymraeg ledled y byd. Mae hi hefyd yn arwain Penwythnosau Cymraeg yng Ngarth Newydd - profiadau trochi yng nghefn gwlad Cymru. P'un a ydych chi'n chwilio am ddihangfa arddull gwyliau gydag iaith, diwylliant, a phrydau bwyd a rennir, neu encil dysgu ffocws gyda gwersi strwythuredig ac ymarfer, mae'r penwythnosau hyn yn cynnig ffordd unigryw o brofi'r Gymraeg.

Mae stori Virginia yn un o angerdd, gwydnwch, a chysylltiad diwylliannol - prawf bod y Gymraeg yn iaith fyw, fyd-eang.

“Bob dydd rwy'n mwynhau gwneud yr hyn rydw i wedi'i ddewis ar gyfer fy mywyd.” – Virginia Steinkamp



Welsh Tutor Profile:

Virginia Steinkamp

Virginia Steinkamp was born in Trelew, Patagonia (Argentina)—a town founded by Welsh settlers in 1865. Her first encounter with Welsh came at the age of eight in chapel services, sparking a lifelong passion for the language.

By 18, she had earned a scholarship to improve her Welsh in Cardiff, gaining fluency and deepening her cultural connection. For over a decade, she taught Welsh to children and adults in Patagonia, helping keep the language alive across generations.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Now based in Spain, Virginia runs an online project offering Welsh tutoring worldwide. She also leads Welsh Weekends at Garth Newydd—immersive experiences in rural Wales. Whether you're looking for a holiday-style escape with language, culture, and shared meals, or a focused learning retreat with structured lessons and practice, these weekends offer a unique way to experience Welsh.

Virginia's story is one of passion, resilience, and cultural connection—proof that Welsh is a living, global language.

“Every day I enjoy doing what I have chosen for my life.” – Virginia Steinkamp



Garth Newydd

Danteithion Alys

gan Myfanwy Sutton

Yn aml iawn dw i'n gwneud picau ar y maen ac, er syndod i mi mae'r hen ferch wrth ei bodd efo nhw. Mae hi dros ddeunaw oed ac mae'n rhaid i mi ddweud mis yn ôl roeddwn i'n meddwl bod hi wedi dod draw i farw, doedd hi ddim mewn cyflwr da o gwbl. Ond mae hi'n edrych fel bod hi wedi gwella ac yn aml iawn mae hi wrth y drws gefn yn mynnu cael mwy o bicau ar y maen.



Dw i'n amau does dim llawer o gangarwod wedi bwyta pica ar y maen yn Awstralia. Tybed a oes ganddi hi waed Cymreig?

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

**Mis Hydref 2025 – M Wynn Thomas –
‘Deuddeg O Emynau Gwerthfawr Cymru’**

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Diolch i M Wynn Thomas am ddod i siarad â ni ar y 13eg Hydref. Dwedodd e fod e'n fachgen o'r Rhondda. Astudiodd e ym mhrifysgol Abertawe a daeth e'n athro yno yn yr adran Saesneg. Mae'n aelod o Orsedd y Beirdd ac wedi bod yn canolbwyntio ar farddoniaeth a llenyddiaeth, Cymraeg a Saesneg, dros ei fywyd.

Dyw e ddim yn meddwl fod e'n arbenigwr ar emynau ond ysgrifennodd e lyfr, 'The History of Wales in Twelve Poems' ym 2021 i helpu esbonio sut mae emynau a cherddi wedi egluro'r wleidyddiaeth, cymdeithas a diwylliant Cymru ers y seithfed ganrif.

Wedyn penderfynodd e ganolbwyntio ar y cyfnod ers y deunawfed ganrif i gyhoeddi llyfr, 'Poems from the Soul'. Yn y llyfr mae Wynn yn ysgrifennu am ddeuddeg o emynau gwerthfawr Cymru a dyna oedd testun ei sgwrs. Mae'r emynau wedi cael eu hysgrifennu gan bobl gyffredin, gofaint, ffermwyr a phregethwyr. Mae Wynn yn meddwl bod emynau yn rhoi cipolwg i ni ar fywydau pobl a'u credoau. Ar gyfer pob emyn mae e'n egluro'r rheswm dros ei ddewis a'i ystyr yn ogystal â rhywfaint o gefndir yr awdur. Wrth gwrs, ei ddewis o yw'r emynau ac mae e'n sylweddoli efallai bod dewis arall gyda rhai bobl.

Ymhlith y deuddeg emyn yn y casgliad mae pedwar gan William Williams Pantycelyn ac un gan Ann Griffiths. Efallai mai'r emynau mwyaf adnabyddus ydy 'Calon Lân' (Daniel James) a 'Guide Me, O Thou Great Jehovah' (Pantycelyn).

Emynau eraill yn y casgliad ydy:-

'Dyma gariad fel y moroedd' (Gwilym Hiraethog), lle mae Hiraethog yn adrodd hanes porthmon tlawd a gafodd ei ddisgyblu am ymweld â'i wraig sâl ar y Sabath ac yn archwilio'r syniad a ddylai Duw fod yn gosbol.

'Er mai cwbl groes i natur' (Ann Griffiths) lle mae hi'n disgrifio llawenydd ei bod hi wedi teimlo ers ei thröedigaeth sydyn.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

‘Tydi, a roddai liw’r wawr’ (T Rowland Hughes). Ysgrifennodd Hughes yr emyn yn y 1930au yn erbyn y Dirwasgiad a’i ddiagnosis o multiple sclerosis. Mae e’n sôn am fregusrwydd bywyd a dioddefaint dynol ac yn ein hatgoffa ni o ddioddefaint Crist ar y groes.

Mae llawer mwy o esboniadau yn y llyfr a diolch i Wynn am sgwrs ddiddorol iawn.

Digwyddiad nesaf - Nos Lun, 10 Tachwedd – ‘A Oes Heddwch? Mudiadau Protest yn Hanes Cymru Modern’ gyda Paul O’Leary. Os bydd diddordeb gyda chi, rhwch wybod i mi, nestahumphreys@btinternet.com

Mae tudalen Facebook gyda’r Gymdeithas a dyma’r ddolen.

https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr/?locale=en_GB

Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt

Adroddiad gan Martin Jones

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf ein tymor newydd ar y 20fed o Hydref. Agorwyd y cyfarfod gan ein Cadeirydd, Yr Athro Prys Morgan, yn ei arddull digyffelyb cyn cyflwyno ein dyn gwadd, Andrew Green, cyn-lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn 2024, cyhoeddodd Andrew “Voices on the Path”, y llyfr cyntaf i adrodd hanes cerdded yng Nghymru, ac esboniodd e i’r llyfr ddod a dau o’i diddordebau mawr at ei gilydd, sef ysgrifennu a cherdded. Yn ei sgwrs hynod o ddiddorol, siaradodd Andrew am dair o themâu’r llyfr: pererindodau, cerdded torfol, a cherddwyr enwog.

O ran pererindodau, esboniodd Andrew fod llawer o safleoedd sanctaidd yng Nghymru, gan gynnwys Pen-rhys yng Nghwm Rhondda, Pennant Melangell, Ynys Enlli, a Thŷ Ddewi. Ac wrth gwrs, cerdded oedd yr unig ffordd y gallai pobl gyffredin gyrraedd y safleoedd yr oedden nhw’n ymweld â nhw am resymau crefyddol, ysbrydol, a hefyd meddygol - sef i gael eu gwella o ryw anhwylder neu anabled.

Yn y ail ran o’r sgwrs, clywsom ni sut, ar ôl y Chwyldro Diwydiannol, daeth cerdded torfol yn ffordd o wneud pwynt neu ffordd o brotestio, a

chyfeiriodd Andrew at ddigwyddiadau fel gwrthryfel Merthyr, terfysgoedd Rebeca, a siartwyr Casnewydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac at brotestiadau yn erbyn y llywodraeth yn torri budd-dal diweithdra ym 1935.

Gorffennodd Andrew ei sgwrs gan siarad am rhai o’r bobl enwog sy wedi cerdded yng Nghymru dros y blynyddoedd, gan gynnwys George Borrow (awdur Wild Wales), a beirdd fel Coleridge, Gerard Manley Hopkins, a Robert Graves. Cyfeiriodd Andrew hefyd at lyfr ymadroddion Thomas Roberts (wedi’i gyhoeddi ym 1831) a gynhwysodd rhan wedi’i anelu at y rhai â diddordeb mewn cerdded yn y mynyddoedd a oedd yn cyfieithu’r fath ymadroddion defnyddiol fel: “Must I have nails in my shoes to ascend that mountain?” (A rhaid i mi gael hoelion yn fy esgidiau i esgyn y mynydd yna?) a “You are giddy because you look down” (Yr ydych chi wedi pendroni o ran i chwi edrych i lawr)!

Noson lwyddiannus iawn sy’n argoeli’n dda ar gyfer gweddill y flwyddyn. Rydyn ni’n edrych ymlaen at groesawu Andrew yn ôl yn y dyfodol.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Murton am 19.00 ar 17eg o Dachwedd pan fydd ein cadeirydd yn siarad am: “O Gwm Tawe i’r Maes D’Orsay.” Dewch yn llu i ddysgu sut helpodd chwys a gwaith caled gweithwyr ardal Abertawe i ariannu llawer o’r paentiadau sydd i’w gweld ym Mharis.

Geirfa

Gwledd Gigrin

Cuddfan - (bird) hide
Yn reddf - instinctively
Yn eu plith - among them
Barcud - red kite
Y wefr - the thrill
Gosgeiddig - graceful

Diwrnod diddorol

Fforio - to forage
Arweinydd - leader
Bwytdw - edible
Corn carw’r môr - rock samphire
Slefren fôr - jellyfish
Cocos - cockles

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Cregyn gleision - mussels
Boncyff - log

Eicon Cymreig

Gyrfa rhyfeddol - amazing career

Eisteddfod

Cynhalu - to hold (an event)
Awyrgylch - atmosphere
Barddoniaeth - poetry
Hyrwyddo - to promote

Nia Ellis

Ar hyd y ffordd - on the way
Llefaru - to recite
Mis mêl - honeymoon
Arsyllfa - observatory
Galaeth - galaxy
Llwybr llaethog - milky way
Arallfydol - out of this world

Lynne Regent

Cyfansoddwr - composer

Fy hoff le

Hudolus - magical
Aer llygredig - polluted air
Rhyfeddodau - amazing things
Noddfa - reserve, sanctuary
Drycin Manaw - Manx Shearwater
Brân goesgoch - chuff
Morlo llwyd - grey seal
Llamhidydd - porpoise
Swyno - to enchant
Pererin - pilgrim

Synau derbyniol

Byddarol - deafening
Boddhad - satisfaction
Gwraidd - root

Cornel cyngor

Draig anwes - pet dragon
Ar dennyn - on a lead
Anghenfil - monster
Cyn-hanesyddol - prehistoric
Deiseb - petition
Canlyniad anwybodaeth - result of ignorance
Diffyg profiad - lack of experience
Argymell - to recommend
Danteithion - delicacies

Hen Gapeli Segur

Dyfodiad - the coming
Anghydfurfaeth - non-conformist
Crynwyr - Quakers
Dysgeidiaeth - doctrine
Uniongyrchol - direct
Cyndeidiau - ancestors
Diwygiad - reformation
Crefyddol - religious
Gorlawn - too full, overcrowded
Cyflwr - condition
Deffroad - awakening
Ar flaen y gad - in the front of the battle
Penllanw - peak
Arswyd - horror
Dielw - not for profit
Seiliedig - based on
Dirywiad - deterioration
Pensaernïaeth - architecture
Nodweddiadol - characteristic

Tipyn bach o ddamwain

Hofrennydd - helicopter
Goroesi - to survive
Adnodded - resources
Hidlwr - filter
Gwythennau - veins
Tolchen - clot
Ymennydd - brain
Mewnfudwyr - immigrants
Cyfergyd - collision
Rhwymyn - bandage
Bres - brace
Baglau - crutches
Cnwd - crop
Rhwystredig - frustrating

Y Ddringfa

Hyfforddwr - instructor
Llethr - slope
Anghyfforddus - uncomfortable
Etifeddiaeth - inheritance
Angori - to anchor

Frank yn 90 oed

Dylanwad - influence
Dognau - rations
Cyfyngiadau - restrictions
Gwahardd - to forbid

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Byd Natur

Palu - to dig
Abwydyn - worm
Gloyw - shining
Pig - beak
Atyniadol - attractive
Peradl blewog - lesser hawkbit
Gwelltog - grassy
Lluosflwydd - perennials
Brodorol - native
Dant y llew - dandelion
Llygad y dydd - daisy
Ymestyn - to expand
Goresgynnol - invasive
Marddanhadlen wen - white deadnettle
Porfa - grazing place
Cyrion - edges
Danadl poethion - nettles
Amgylchynu - to encircle
Tarddle neithdar - source of nectar
Paill - pollen

Pen-blwydd Priodas

Caerlŷr - Leicester
Llysieuwr - vegetarian
Creision - crisps

Taith Beicio

Helaeth - ample
Cromen - dome
Cofeb - memorial
Cyrchfan - destination
Lletchwith - awkward
Calonnog - hearty
Gwlypdir - wetland
Rhywogaeth - species
Cleiog - full of clay
Ysbrydoli - to inspire
Cloddio ffosydd - digging trenches

Cymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt

Arddull - style
Digyffelyb - incomparable
Dyn gwadd - guest speaker
Pererindod - pilgrimage
Cerdded torfol - mass marches
Chwyldro Diwydiannol - Industrial Revolution
Gwrthryfel - uprising
Terfysg - riot
Budd-dal - benefit
Llyfr ymadroddion - phrase book